BBC Bitesize

# CA3 Cymraeg – Ysgrifennu llythyr neu neges e-bost

**Gweithgaredd 1**

**Atebion**

Dyma'r enghreifftiau o nodweddion arddull yn y llythyr.

- **berfau gorchmynnol** - Dychmygwch
- **cyfarch y darllenydd** - Ysgrifennaf atoch... / Petaech chi'n...
- **cwestiynau rhethregol** - Fyddech chi'n eistedd yn ôl a gadael i'r fath beth ddigwydd?
- **ailadrodd/rhestru** - does dim cartrefi, dim bywoliaeth a dim swyddi

Annwyl Syr/Madam,

**Ysgrifennaf atoch** i gyhoeddi fy nicter tuag at gynlluniau i foddi Cwm Celyn. Ar ôl cysylltu gydag aelodau o gymuned Capel Celyn, mae'n amlwg fod y rhan helaeth yn cytuno bod hyn yn warthus. Hoffwn gynrychioli barn pobl y cwm a barn eraill ledled Cymru yn y llythyr hwn.

Yn gyntaf, hoffwn sôn am y cenedlaethau a'r teuluoedd sydd wedi adeiladu pentref, neu'n hytrach, cymuned ers canrifoedd. Heb Gwm Celyn, **does dim cartrefi, dim bywoliaeth a dim swyddi** gan gymdogion y cwm. **Petaech chi'n** boddi'r cwm, byddech chi hefyd yn boddi cenedlaethau o fywydau. **Dychmygwch** eich teulu chi yn gorfod gadael eu pentref a'u holl atgofion! **Fyddech chi'n eistedd yn ôl a gadael i'r fath beth ddigwydd?**

Yn gywir,

Deian Llwyd


© BBC